

FFORWM MYNEDIAD LLEOL RHONDDA CYNON TAF ADRODDIAD BLYNYDDOL 2025-2026

Ysgrifennwyd y rhagair gan Gadeirydd y Fforwm Mynediad Lleol

Yn ystod cyfarfodydd a gynhaliwyd ers yr adroddiad blynyddol diwethaf, cafodd llawer o drafodaethau ystyrlon eu cynnal a chafodd llawer o wybodaeth a chynghor defnyddiol eu darparu gan aelodau, cyfraniadau gan westeion a'r Garfan Cefn Gwlad/Hawliau Tramwy Cyhoeddus. Diolch i bawb am gymryd rhan.

Cymerodd rhai aelodau o'r Fforwm Mynediad Lleol ran yn y broses ymgynghori ar Gynllun Datblygu Lleol (CDLI) Diwygiedig Rhondda Cynon Taf. Cafodd yr wybodaeth ddiweddaraf ei darparu am y CDLI, 'Llwybrau'r Fro 2', 'Teithio Llesol', 'Cynllun Ffermio Cynaliadwy' a Chwaraeon RhCT. Cyhoeddwyd diwygiadau i strwythur Carfan Cefn Gwlad/Hawliau Tramwy Cyhoeddus RhCT gyda newidiadau o ran staffio, a rhoddwyd hysbysiad y byddai recriwtio/ailbenodi aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol ar ddiwedd y tymor yn dechrau ym mis Ebrill 2026.

Rhoddodd Future Valleys gyflwyniad yn dangos yr A465 a'r llwybrau i Ddefnyddwyr Heblaw Modurwyr sydd newydd agor. Er bod llwyddiannau sylweddol wedi'u cyflawni gan Lwybr Mawr Morgannwg ym Mro Morgannwg, mae cyllid ar gyfer rhai o ardaloedd Cynghorau lleol wedi dod i ben a bydd angen ffynonellau cyllid newydd er mwyn i'r prosiect barhau yn yr awdurdodau hyn. Darparwyd trosolwg o Ran Beilot Llwybr Coedwig Genedlaethol i Gymru ar gyfer y prosiect cyffrous hirdymor yma gan Lywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC).

Cipolwg ar y Flwyddyn – Prif Gyflawniadau a Blaenoriaethau Parhaus

Prif Gyflawniadau yn ystod 2025–26

- Wedi cefnogi cyfleoedd mynediad a rennir gwell (cerddwyr, beicwyr a marchogion) sy'n gysylltiedig â mentrau'r A465 a'r Goedwig Genedlaethol.
- Wedi cyfrannu at drafodaethau ar y Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig, gan sicrhau bod materion mynediad cyhoeddus yn cael eu hystyried.
- Wedi hyrwyddo safonau gwell ar gyfer hawliau tramwy cyhoeddus drwy drafod y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.
- Wedi parhau i roi cymorth i ddatblygu Llwybr Mawr Morgannwg a'r seilwaith marchogaeth cysylltiedig.

Blaenoriaethau Parhaus

- Sicrhau cyllid yn y dyfodol a chyflawniad Llwybr Mawr Morgannwg.
- Cydnabod a chofrestru Meysydd Pentref o fewn prosesau cynllunio.
- Gwella cyfleoedd i farchogion a defnyddwyr eraill heblaw modurwyr.
- Datblygu safbwynt y Fforwm ar fynediad at ddŵr a gweithgareddau hamdden mewn dŵr.

Cadeirydd - Claire Brenton-Taylor
Dirprwy Gadeirydd – Paul Ford

Aelodau o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf:

Y Cyngorydd Ann Crimmings, Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd a Hamdden
Jason Bragg - Swyddog Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy ac Ysgrifennydd y Fforwm
Mynediad Lleol

Sarah Williams – Gweinyddwr Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy Cyhoeddus (tan fis Awst 2025)

Timothy Phillips - Swyddog Map Diffiniol (tan fis Medi 2024)

Matthew Farley - Rheolwr Cynllunio a Gorfodi (o fis Tachwedd 2024 tan fis Tachwedd 2025)

Thomas Rogers - Swyddog Map Diffiniol (o fis Gorffennaf 2025)

Mia Thomas – Technegydd Hawliau Tramwy Cyhoeddus a Chynllunio (o fis Chwefror 2026)

Aelodau Cyfoeth Naturiol Cymru:

Andy Robinson – Sylwedydd Statudol ac Arweinydd Carfan Pobl a Lleoedd

Miki Miyata Lee - Sylwedydd Statudol ac Uwch Swyddog Partneriaethau Hamdden a
Mynediad De Cymru

Siaradwyr gwadd

Clare Hewitt, Owen Jones, Emma Lewis: Carfan Cynllun Datblygu Lleol RhCT

Gavin Bennett: Chwaraeon RhCT

Emyr Davies: Cydlynnydd Prosiect Future Valley

James Walker: Llwybr Mawr Morgannwg

Andrew Davies: Llywodraeth Cymru - (Coedwig Genedlaethol i Gymru)

Cyfraniadau Ysgrifenedig

Y Cyngorydd Andrew Morgan OBE: Arweinydd y Cyngor

Cofnodion y Cyfarfod, Nodiadau a thaflenni

Ar gael gan Garfan Hawliau Tramwy Cyhoeddus RhCT a/neu ar wefan yr adran

Dyddiadur Cyfarfodydd

Dyddiadau'r cyfarfodydd: Dydd Mawrth 21 Mai 2024, Dydd Mawrth 3 Rhagfyr 2024, Dydd
Llun 30 Mehefin 2025, Dydd Iau 12 Chwefror 2026.

Gweithgareddau'r Cyfarfod

CYFARFOD CHWECH	
Eitem	Gweithgaredd
Adroddiad Blynnyddol	Cafodd Adroddiad Blynnyddol 2023-2024 ei ddosbarthu cyn y cyfarfod yma i aelodau ei adolygu a rhoi mewnbyn. Cafwyd ceisiadau am ddau ddiwygiad, h.y. mewnosod dolen i wefan Llwybr Mawr Morgannwg a chywiriadau i deitlau Sylwedyddion Statudol Cyfoeth Naturiol Cymru. Cafodd diwygiadau eu gwneud yn ddiweddarach er mwyn mabwysiadu'r adroddiad.

Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig	Awgrymwyd ychwanegu mapiau a lluniau ar gyfer adroddiadau yn y dyfodol. Rhoddodd y Garfan Adolygu'r CDLl drosolwg i'r aelodau o broses y CDLl newydd yn ogystal ag ateb cwestiynau. Cafodd cwestiynau a phryderon eu codi ynghylch Seilwaith Gwyrdd, yn enwedig mewn Tir Comin a ffiniau hyblyg. Cafodd pryderon eu codi ynghylch honiadau o dorri rheolau cynllunio hanesyddol a diffyg cydymffurfiaeth yn ymwneud â chaniatâd/amodau cynllunio. Mewn ymateb gan RCT, o ran Hawliau Tramwy Cyhoeddus, gallai hyn gychwyn cyfleoedd i wella'r rhwydwaith trwy ddargyfeirio llwybrau i lwybrau gwell ac ar gyfer y CDLl y posibilrwydd o ychwanegu Meysydd Pentref at y cynllun. Cafodd yr aelodau eu gwahodd i gyfrannu at y CDLl.
Llwybrau'r Fro 2	Rhoddodd Carfan Hawliau Tramwy Cyhoeddus RhCT y newyddion diweddaraf ar y cynnydd a wnaed tuag at amcanion Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy Cyhoeddus. Cafodd taflen grynoded ei darparu i'r aelodau.
Rhaglen Waith ar gyfer y Dyfodol 2024-2025	Trafodwyd y prosiectau canlynol: • Ymdrochi mewn Dŵr Oer ym Mharc Gwledig Cwm Clydach a'r mater cymhleth o atebolrwydd. • Beth yw Tir Comin? Mae angen esboniad er mwyn i hyn gael ei ddeall yn well. • Pwysigrwydd adrodd yn effeithiol ar faterion. • Prosiect cyfeiriadur grwpiau lleol – yn parhau. Cafodd y siaradwyr/sefydliadau gwadd canlynol eu hawgrymu: • Trafnidiaeth Cymru • Uwchadran Priffyrdd RhCT • Ken Moon o Dir y Ffridd, Pontypridd, cynllun a arweinir gan y gymuned.
Unrhyw Fater Arall	Oherwydd diffyg presenoldeb, penderfynwyd tynnu 4 aelod o'r fforwm. Cafodd yr aelodau hyn wybod am hyn. Gofynnwyd i'r aelodau geisio recriwtio ffermwyr/tirfeddianwyr.
CYFARFOD SAITH	
Eitem Y Newyddion Diweddaraf gan y Garfan Cefn Gwlad	Gweithgaredd Cafodd diweddariad byr ei roi gan RCT ar newidiadau i'w gwneud i strwythur yr adran Cefn Gwlad a chytunodd yr aelodau y byddai modd i hyn alluogi'r fforwm i weithio'n agosach gyda'r garfan Cynllunio.
Y Newyddion Diweddaraf am y Cynllun Datblygu Lleol	Rhoddodd garfan y CDLl yr wybodaeth ddiweddaraf, gan dynnu sylw at rai pwyntiau pwysig. Cafodd y cwestiwn o ddynodiad Maes Pentref ei godi ac i'w ddilyn gyda charfan y CDLl, a ddywedodd y byddai'n bresennol yn y cyfarfod nesaf. Awgrymwyd y dylai

Y Newyddion Diweddaraf am Deithio Llesol	aelodau gyflwyno cwestiynau i garfan y CDLI cyn y cyfarfod nesaf er mwyn rhoi amser i'r swyddogion sy'n bresennol ymateb yn llawn. Rhoddodd y garfan Teithio Llesol y newyddion diweddaraf, gan dynnu sylw at rai pwyntiau pwysig. Nododd un aelod fod gwaith adlinio Llwybr Taith Taf a'r gwelliannau rhwng Nant Cae Dudwg ac Ysgol Uwchradd Pontypridd yn ychwanegiad i'w groesawu i drigolion Ynys-y-bwl a'r ardaloedd cyfagos.
Chwaraeon Rhondda Cynon Taf	Cafodd y newyddion diweddaraf ei ddarparu. Mae llai o gyllid wedi'i dderbyn gan Chwaraeon Cymru a'r awdurdod lleol oherwydd y ffocws sy'n cael ei lywodraethu gan agenda Chwaraeon Cymru. Ar nodyn mwy disglair, mae'r Garfan Teithio Llesol wedi cynhyrchu fideos o lwybrau teithio llesol sydd ar gael ar dudalen Chwaraeon RhCT a YouTube. Yn ogystal, mae yna ddolenni i dudalen Hawliau Tramwy Cyhoeddus RhCT sy'n hyrwyddo llwybrau cerdded, beicio a marchogaeth.
Cyfeiriadur – gweithgor	Mae cyfeiriadur o grwpiau lleol perthnasol wedi'i lunio, a bydd gwaith casglu data yn parhau gyda rhai aelodau'n cynnig helpu. Cafodd copi ei anfon at aelodau.
Rhaglen Waith ar gyfer y Dyfodol	Cafodd yr eitemau canlynol eu trafod ar gyfer gwaith ymgysylltu'r Fforwm Mynediad Lleol yn y dyfodol: • Ymdrochi mewn Dŵr Oer – gweithgor i ymchwilio i bryderon ynghylch atebolrwydd ac a oes unrhyw bolisiâu gan sefydliadau e.e. Safe Cymru. Cadarnhaodd Cyfoeth Naturiol Cymru nad oes ganddyn nhw bolisi ond eu bod nhw'n bwriadu gweithio gyda Llywodraeth Cymru yn y maes cymhleth yma a sefydlu fframwaith cyfarwyddeb ar gyfer ymdrochi. • Trafnidiaeth Cymru – i gael gwahoddiad. • Priffyrdd – i gael gwahoddiad. • Ken Moon – i gael ei wahodd. • Tir Cyffredin – rhywun i siarad am hyn. • Adrodd yn effeithiol ar faterion – gwybodaeth i'w chyflwyno ar sut i wneud hyn mewn ffordd effeithiol a defnyddio'r data sy'n cael ei gasglu.
Unrhyw Fater Arall	• Llwybr Mawr Morgannwg: Mae cytundeb yn cael ei adolygu i RCT fod yn gyfrifol am waith cynnal a chadw yn y dyfodol ar lwybrau ceffylau trwyddedig/llwybrau ceffylau caniatol sy'n croesi safleoedd Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae hyn i'w ddyblygu gydag awdurdodau lleol Bro Morgannwg, Merthyr Tudful, Caerdydd a Phen-y-bont ar Ogwr a bydd yn sicrhau bod marchogaeth yn cael ei ganiatáu ar rannau o Llwybr Mawr Morgannwg trwy safleoedd Cyfoeth Naturiol Cymru. Fodd bynnag, mae cyllid ar gyfer y prosiect yma'n ansicr.

	• Cyfarfodydd Ar-lein: Cafodd cais ei wneud yn gofyn a yw hyn yn bosibl a bydd RhCT yn ymchwilio i hyn. • Cyfranogiad y Fforwm Mynediad Lleol mewn ymgynghoriadau anffurfiol: Cafodd cais ei wneud i aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol fod yn rhan o ymgynghoriadau cyn rhoi gorchymyn ar waith mewn perthynas â Gorchmynion Llwybrau Cyhoeddus, Gorchmynion Addasu Mapiau Diffiniol a Gorchmynion Rheoleiddio Traffig. Ni chafwyd consensws ar ôl trafod gyda rhai aelodau a oedd yn teimlo bod penderfyniadau gweithredol cyffredinol y tu hwnt i rôl y fforwm, a ddylai fod yn ymwneud â chynghori ar gynigion sydd ag effaith ehangach yn unig. Bydd trosolwg gan RCT o'r prosesau Gorchmynion Addasu Mapiau Diffiniol a Gorchmynion Llwybrau Cyhoeddus yn cael ei ddarparu mewn cyfarfod yn y dyfodol. • Gatiau ar Briffyrdd Lonydd Gwyrdd: Mae rhai aelodau'r fforwm wedi cytuno i sefydlu is-grŵp i adolygu gatiau sydd wedi'u gosod ar briffyrdd cerbydau cyhoeddus heb wyneb caled.
CYFARFOD WYTH	
Eitem	Gweithgaredd
Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig	Cafodd y newyddion diweddaraf ei roi ar broses y CDLl yn dilyn yr ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffeirir ac ar broses ac asesiad yr Asesiad Seilwaith Gwyrdd.
Ymholiad ar Ddiffiniad Mannau Gwyrdd	Esboniodd carfan y CDLl y gall fod amrywiol ddiffiniadau ar gyfer Mannau Gwyrdd yn dibynnu ym mha gyd-destun maen nhw'n cael eu defnyddio. Eglurwyd, yn wahanol i Seilwaith Gwyrdd fel y'i diffinnir ym Mholisi Cynllunio Cymru, does dim diffiniad o Fannau Gwyrdd yn y polisi yma. Yng nghyd-destun yr uchod, mae Seilwaith Gwyrdd yn cynnwys Mannau Gwyrdd fel parciau a mynwentydd.
Cynllun Deuoli'r A465	Rhoddodd Future Valleys gyflwyniad yn dangos yr A465 a'r llwybrau i Ddefnyddwyr Heblaw Modurwyr sydd newydd agor. Cafodd copïau o lyfryn manwl eu rhannu gyda'r aelodau. Roedd yr adborth gan drigolion ar y cyfryngau cymdeithasol yn gadarnhaol ar ôl cwblhau'r cynllun. Gwnaeth maint a graddfa'r prosiect a'r cynigion newydd maen nhw'n eu darparu ar gyfer mynediad argraff fawr ar aelodau'r fforwm.
Llwybr Mawr Morgannwg	Cafodd y newyddion diweddaraf ar y prosiect ei ddarparu gan dynnu sylw at y cyflawniadau hyd yma ym Mro Morgannwg lle mae'r prosiect wedi'i leoli ac yn cael ei gyflawni'n weithredol. Cafodd copïau o adroddiad y prosiect eu rhannu gydag Aelodau'r fforwm. O ran cyllid ar gyfer y prosiect, dim ond gyda chyllid o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin y mae parhad wedi bod yn bosibl ers i gyllid Galluogi Adnoddau Naturiol ddod i ben yn ardaloedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Chyngor Sir Bro

Adroddiad Blynyddol Unrhyw Fater Arall	Morgannwg. Hefyd, doedd cynigion mewnol partneriaid eraill ddim mor llwyddiannus, h.y. cynghorau Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Chaerdydd. Cynigiodd yr aelodau gefnogi'r prosiect drwy helpu i nodi cyfleoedd ariannu ar gyfer y prosiect yn Rhondda Cynon Taf. Awgrymwyd y dylid drafftio'r Adroddiad Blynyddol nesaf fel ymdrech ar y cyd gan aelodau'r fforwm. • Cyfeiriadur: Cafodd cyfeiriadur wedi'i ddiweddarau ei ddarparu a'i ddosbarthu i'r aelodau. • Teithio Llesol: cafodd y diweddariad diweddaraf ei rannu cyn y cyfarfod. • Eitem ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod nesaf: Cyllid Llwybr Mawr Morgannwg • Mynediad at Ddŵr ar gyfer Gweithgareddau Hamdden Mewn Dŵr Gofynnwyd i'r fforwm ystyried llunio dogfen yn amlinellu sut y mae'n gweld y byddai gwelliannau o ran mynediad yn edrych o fewn Rhondda Cynon Taf a Chymru gyfan ac y byddai modd codi hyn fel mater i'w ystyried gyda Fforwm Cenedlaethol Cymru. Gallai'r ddogfen gynrychioli barn y Fforwm Mynediad Lleol. • Staffio: Cyhoeddwyd dau newid i'r Garfan Cefn Gwlad – bydd Sarah Williams yn symud i Garfan y CDLI, a bydd Swyddog Map Diffiniol newydd yn dechrau gyda'r garfan Cefn Gwlad.
CYFARFOD NAW	
Eitem Rhan Beilot Llwybr Coedwig Genedlaethol i Gymru Cynllun Ffermio Cynaliadwy	Gweithgaredd Dros Teams, cafodd y prosiect ei gyflwyno gyda throsolwg o sut mae Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydweithio. Bydd hwn yn brosiect 10–15 mlynedd, gyda rhan beilot y llwybr yn rhedeg am 80 cilomedr rhwng y Barri a Glyn-nedd, a bydd achlysur lansio yn cael ei chynnal ym Mharc Gwledig Porthceri ar 4 Mawrth 2026. Holwyd ynghylch parhad, lled a hyd y llwybr, a fyddai'r defnydd yn cael ei rannu ac a fyddai'n cydymffurfio â'r lled safonol ar gyfer defnydd amlbwrpas. Cafodd ei nodi mai nod y llwybr yw y bydd mor hawdd ei ddefnyddio i sawl defnyddiwr â phosibl. Gofynnwyd cwestiwn a fyddai'r achlysur lansio yn cynnwys marchogion, a chadarnhawyd ei fod yn cael ei hyrwyddo fel achlysur cerdded ond y byddai'r ymholiad ynghylch mynediad i farchogion yn cael ei wneud gyda rheolwyr safle Parc Gwledig Porthceri. Fel yr eglurwyd gan y Swyddog Hawliau Tramwy Cyhoeddus, dechreuodd y cynllun yma ar 1 Ionawr 2026 gan Lywodraeth Cymru. Un gofyniad ar gyfer cymryd rhan yn y cynllun yw bod yn rhaid i dirfeddianwyr gyflawni eu cyfrifoldebau cyfreithiol o ran Hawliau Tramwy Cyhoeddus a mynediad at dir. Nod y cynllun yw gwella mynediad cyhoeddus drwy ddisodli camfeydd â gatiâu lle

	bo'n briodol a gosod gataiau newydd. Mae swyddogion maes ac arolygwyr yn gyfrifol am wiriadau maes. Codwyd pryder gan aelod o'r fforwm ynghylch ffermwyr yn dargyfeirio llwybrau sy'n croesi caeau. Cwestiwn arall a godwyd oedd sut mae'r cynllun yma'n wahanol i rai blaenorol. Esboniwyd o dan y cynllun presennol, er mwyn ymuno, bod yn rhaid i dirfeddianwyr gynnal, cadw'n glir a sicrhau mynediad cyhoeddus i bob Hawl Tramwy Cyhoeddus sy'n croesi eu tir.
Llwybr Mawr Morgannwg	Gyda'r cyllid a'r prosiect yn dod i ben cyn Ebrill 2026, er mwyn symud ymlaen byddai awdurdodau lleol yn edrych i rannu'r gost o gadw'r wefan yn weithredol. Cafwyd trafodaeth ynghylch adeiladu corlan/ardal gaeedig i geffylau ym Mharc Gwledig Barry Sidings lle mae mynediad i farchogion i Goedwig Gelliwion a'r Llwybr a'r dargyfeiriad llwybr ceffylau arfaethedig yn Nhrehafod-Parc Gwledig Barry Sidings. Byddai carfan Hawliau Tramwy Cyhoeddus RhCT yn edrych i barhau â hyn yn y flwyddyn ariannol nesaf.
Y Newyddion Diweddaraf am Deithio Llesol	Cafodd diweddariad ei baratoi gan y Cynghorydd Adrian Morgan a'i ddosbarthu cyn y cyfarfod. Cafwyd trafodaeth ynghylch gwaith sefydlogi i'r rhan o Lwybr Taith Taf rhwng Heol Coedpenmaen a'r nant yn Nant Cae Dudwg ar ôl difrod llifogydd, ac eglurwyd bod disgwyl i'r gwaith atgyweirio gael ei gwblhau erbyn diwedd mis Mawrth 2026. Gofynnwyd am ragor o ymgynghori â marchogion a rhagor o weledd gyda Theithio Llesol ac erthygl yng nghylchlythyr y Cyngor i hyrwyddo hyn. Cafodd cwestiwn pellach ei godi yn holi a yw pob llwybr Teithio Llesol yn rhydd o rwystrau ac os nad ydyn nhw, a fyddai modd trefnu hyn. Cynghorwyd i ofyn am hyn yn uniongyrchol drwy garfan Trafnidiaeth RhCT.
Y Newyddion Diweddaraf am Lwybrau'r Fro 2	Rhoddodd y Swyddog Hawliau Tramwy Cyhoeddus grynodedd o weithgareddau a chynnydd o ran hawliau tramwy o fis Ebrill 2024 i fis Chwefror 2026, a dosbarthodd daflenni. Cafodd gwaith y garfan Hawliau Tramwy Cyhoeddus ei ganmol gan y Cynghorydd Crimmings. Holodd aelodau ynghylch y defnydd o ddeallusrwydd artiffisial ar gyfer ymholiadau a chwynion a dywedodd staff ei fod yn gyffredinol yn beth negyddol ac yn cymryd llawer o amser.
Diwedd y Tymor a Recriwtio/Ailbenodi	Recriwtio'r Fforwm Mynediad Lleol ar gyfer y tymor nesaf Mai/Mehefin 2026 i ddechrau ym mis Ebrill 2026. Mae modd i aelodau presennol anfon e-bost i ofyn am ailbenodiad.
Adroddiad Blynyddol	Mae'n amser paratoi'r adroddiad blynyddol a gofynnwyd i wirfoddolwyr ysgrifennu hwn. Cytunodd ychydig o aelodau i gyfrannu at wneud hynny.
Unrhyw Fater Arall	Cafodd y materion canlynol eu codi: cais am gynllun rhwydwaith marchogaeth fel yr un sydd gan Gyngor Sir Caerfyrddin; problemau gyda cheir yn mynd ar ymylon

	glaswellt a nifer y bobl sy'n marchogaeth ar ffyrdd yn gostwng; a fyddai gwaith yn cael ei gynnal ar lwybrau o amgylch Pwll Sioni i wella mynediad at lwybrau ac a ydy'r llwybrau hyn yn Hawliau Tramwy Cyhoeddus. Nodwyd y byddai Carfan Hawliau Tramwy Cyhoeddus Rhondda Cynon Taf yn ychwanegu'r materion yma at y rhestr arolygu. • Cyhoeddwyd bod Chwaraeon RhCT yn dechrau prosiect cerdded ac yn chwilio am grwpiau i gymryd rhan. Gofynnwyd am ddiffiniad o grŵp ac i Swyddog Hawliau Tramwy Cyhoeddus gadarnhau. • Codwyd materion hygrychedd ym Mlaen-cwm yn sgil coed wedi cwmpo. Efallai mai tir Cyfoeth Naturiol Cymru ydy hwn ond bydd y Swyddog Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn gwirio hynny.
--	--